# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 1 Chwefror 2012** |
| Amser: | **10:00 – 11:20** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_01_02_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Gwyn R Price**<br>**Ken Skates**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Lyn Cadwallader, One Voice Wales** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Oherwydd bod Rhodri Glyn Thomas a Peter Black yn Gomisiynwyr y Cynulliad, nododd y Cadeirydd na fyddant yn cymryd rhan yn y sesiynau craffu ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Alun Ffred Jones, a oedd yn dirprwyo ar ran Rhodri Glyn Thomas yn ystod eitem 2, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2. Craffu yn ystod Cyfnod 1 Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol): Cytuno ar y ffordd ymlaen

2.1 Cytunodd y Pwyllgor yn ffurfiol ar y ffordd ymlaen o ran craffu ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

## 3. Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth Cyfnod 1 - Un Llais Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lyn Cadwallader o Un Llais Cymru.

## 4. Sesiwn breifat

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5 yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi).

## 5. Ymchwiliad i ddarpariaeth tai fforddiadwy - trafod y themâu sy'n codi

5.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y prif themâu a nododd y bydd yn ystyried yr adroddiad drafft mewn cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol.

## 6. Ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y penderfyniad a ganlyn, yn unol â Rheol Sefydlog 17.17:

"Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 17.17, er mwyn asesu effaith torri cyllidebau ar gyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru.
Aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen fydd: Ann Jones, Bethan Jenkins a Joyce Watson
Ann Jones fydd Cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen.
Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn dod i ben ar 30 Ebrill 2012, neu pan fydd wedi cyflwyno adroddiad, pa un bynnag a ddaw gyntaf."

6.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r ymchwiliad nesaf yn ystyried Uwch Gynghrair Cymru. Ar wahan i ychydig o fân-newidiadau, cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl.